Archwilio Cymru
Audit Wales

# Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Mis/Blwyddyn cyhoeddi: Awst 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2542A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 18 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Gall hefyd oleuo astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian dan adran 41 Deddf 2004, a/neu archwiliad a gyflawnir gan yr Archwilydd Cyffredinol dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae sefyllfa ariannol uniongyrchol y Cyngor wedi gwella ond mae angen iddo ystyried sut orau i ddefnyddio ei adnoddau i gryfhau ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham 4

Cynigion ar gyfer gwella 5

Mae sefyllfa ariannol uniongyrchol y Cyngor wedi gwella ond mae angen iddo ystyried sut orau i ddefnyddio ei adnoddau i gryfhau ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig 6

Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru 6

Mae angen i'r Cyngor ganolbwyntio'n llawer mwy ar y tymor canolig a hir wrth wneud gwaith cynllunio ariannol, gan gynnwys pennu lefel yr arbedion y mae'n realistig iddo ddisgwyl eu cyflawni trwy drawsnewid, a'r buddsoddiad sy'n ofynnol i gyflawni'r Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella 8

Mae cronfa gyffredinol y Cyngor wedi cynyddu a'r bwriad yw ei chynnal yn unol â'i bolisi cronfeydd wrth gefn; fodd bynnag, roedd tuedd gyffredinol o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd yn lleihau, ond maent wedi cynyddu'n sylweddol yn 2020-21 10

Mae'r Cyngor wedi gwella'i hanes cymysg blaenorol o berfformio yn erbyn y gyllideb, gyda gwargedau wedi'u cyflawni yn y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf 12

Mae gan y Cyngor hanes da o gyrraedd targedau arbedion, ond nid yw'r arbedion hynny'n ddigon i lenwi bylchau o ran cyllid yn y dyfodol 14

Mae gan y Cyngor sefyllfa hylifedd weddol wan o'i gymharu â chynghorau eraill, ond nid yw'r Cyngor yn ystyried bod hyn yn risg arwyddocaol 15

# Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham

1 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn gan bod cynaliadwyedd ariannol yn dal i fod yn risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a'r duedd gyffredinol o ran adnoddau gostyngol ar gyfer llywodraeth leol ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau. Fe gynhaliom ni brosiect tebyg yn 2019-20, cyn pandemig COVID-19.

2 Cynhaliwyd ein hasesiad yn 2020-21 o gynaliadwyedd ariannol cynghorau mewn dau gam. Roedd Cam 1 yn asesiad sylfaenol o effaith gychwynnol COVID-19 ar sefyllfa ariannol cynghorau lleol. Roedd Cam 1 yn seiliedig ar: y sefyllfa diwedd blwyddyn ar gyfer 2019-20; y sefyllfa ar ddiwedd chwarter 1 ar gyfer 2020-21; ac amcanestyniadau ar gyfer chwarter 2 yn 2020-21. Yn dilyn Cam 1, ym mis Hydref 2020 fe gyhoeddom ni adroddiad cryno cenedlaethol – **Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i Bandemig COVID-19**[1]. Canfuom fod cynghorau a Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n dda i liniaru effaith y pandemig hyd yma, ond bod cynaliadwyedd y sector yn y dyfodol yn her barhaus.

3 Mae'r pandemig wedi cael effaith uniongyrchol a dwfn ar gyllid y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd ac, o ganlyniad, ar sefyllfa ariannol cynghorau. Roedd yr adroddiad cryno'n nodi sefyllfa sylfaenol lefel uchel, gan gynnwys sefyllfa cynghorau lleol o ran eu cronfeydd wrth gefn cyn y pandemig. Roedd hefyd yn nodi goblygiadau ariannol cychwynnol y pandemig i gynghorau lleol a maint yr her a ddisgwylid wrth edrych tua'r dyfodol.

4 Mae'r adroddiad hwn yn benllanw ar gam 2 ein gwaith i asesu cynaliadwyedd ariannol yn ystod 2020-21. Fel rhan o hyn rydym yn cynhyrchu adroddiad lleol ar gyfer pob un o'r 22 o brif gynghorau yng Nghymru.

5 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn rhwng mis Ionawr 2021 a mis Mawrth 2021.

[1] Archwilio Cymru, Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o Ganlyniad i Bandemig COVID-19, Hydref 2020.

# Cynigion ar gyfer gwella

**Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella**

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Dylai'r cyngor gynnwys ffigyrau ar gyfer setliadau arian gwastad neu negyddol, yn ychwanegol at senarios eraill mwy cadarnhaol y gall fod arno eisiau eu defnyddio, pan fo'n rhagfynegi ei fylchau o ran cyllid yn y dyfodol. |
| C2 | Rhaid i'r Cyngor adeiladu ar ei sefyllfa ariannol gyfredol i gryfhau ei gydnerthedd ariannol. Rhaid iddo ganolbwyntio'n llawer mwy ar y tymor canolig a hir wrth gynllunio gan gynnwys ystyried lefel yr arbedion y mae'n disgwyl eu cyflawni'n realistig trwy drawsnewid, a lefel y buddsoddiad y mae ei angen i gyflawni'r Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella y tu hwnt i 2021-22. |

# Mae sefyllfa ariannol uniongyrchol y Cyngor wedi gwella ond mae angen iddo ystyried sut orau i ddefnyddio ei adnoddau i gryfhau ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig

## Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru

6 Mae'r adran hon yn nodi'r effaith y mae COVID-19 wedi'i chael hyd yma ar sefyllfa ariannol y Cyngor ac i ba raddau y mae wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

7 Canfuom fel a ganlyn:

- fel a ddangosir yn **Arddangosyn 1** isod, mae holl wariant ychwanegol y Cyngor a'i golledion incwm sy'n gysylltiedig â COVID wedi cael eu hariannu gan gyllid gan Lywodraeth Cymru heblaw am £298,000 i dalu am offer ar gyfer gweithio gartref. Yn ogystal â digolledu am incwm a gollwyd a gwariant ychwanegol, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol ar gyfer gwariant penodol a oedd yn gysylltiedig â COVID.
- mae'r Cyngor wedi tybio, yn 2021-22, y bydd Cronfa Galedi Llywodraeth Cymru yn ariannu costau digartrefedd o £871,000, costau cludiant i'r ysgol o £31,000, colledion incwm parcio ceir o £275,000, a cholledion incwm cynadleddau o £100,000. Ar gyfer blynyddoedd dilynol y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC), mae'r Cyngor wedi cynnwys yr £871,000 ar gyfer digartrefedd a gostyngiadau mewn incwm parcio yn yr adran o'r CATC sy'n ymwneud â gofynion ychwanegol.
- ym mis Mawrth 2021, cafodd y Cyngor £449,000 gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfraniad tuag at golli incwm a gesglir trwy'r Dreth Gyngor. Bydd yr arian hwn yn cael ei roi o'r neilltu o fewn cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi. Mae'r Cyngor wedi cynyddu ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gan gydnabod effaith bosibl y pandemig.

**Arddangosyn 2: cost COVID-19 i’r Cyngor yn ystod 2020-21 [ffigyrau wedi’u darparu gan y Cyngor]**

Mae’r tabl isod yn dangos gwariant ychwanegol y Cyngor a’r incwm a gollwyd ganddo yn ystod 2020-21 o ganlyniad i COVID-19 yn ôl yr amcangyfrifon, a faint o hyn a liniarwyd gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

| | |
|---|---|
| Y swm ychwanegol y mae’r Cyngor yn amcangyfrif y bydd wedi ei wario o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. | £7.104 miliwn |
| Swm yr incwm y mae’r Cyngor yn amcangyfrif y bydd wedi’i golli o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. | £2.004 miliwn (mae’n cynnwys £449,000 ar gyfer colli incwm y dreth gyngor) |
| Swm y cyllid ychwanegol y mae’r Cyngor yn amcangyfrif y bydd yn ei gael gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2020-21 i liniaru effaith COVID-19. | £9.922 miliwn |
| Cost COVID-19 i’r Cyngor yn ystod 2020-21, ar ôl ystyried y cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. | Ni chafodd £298,000 ei ad-dalu’n uniongyrchol ond cafodd y Cyngor arian ychwanegol a oedd yn fwy na’r swm yma |

## Mae angen i'r Cyngor ganolbwyntio'n llawer mwy ar y tymor canolig a hir wrth wneud gwaith cynllunio ariannol, gan gynnwys pennu lefel yr arbedion y mae'n realistig iddo ddisgwyl eu cyflawni trwy drawsnewid, a'r buddsoddiad sy'n ofynnol i gyflawni'r Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella

### Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig

8 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod lefel debygol y cyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau diweddar a'r pwysau a ddisgwylir o ran cyllid ar gyfer yr holl gynghorau mae hefyd yn bwysig adnabod sut y mae'n bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, ac yn arbennig sut y bydd yn cwrdd â bylchau a ragamcanir o ran cyllid.

9 Canfuom fel a ganlyn:


- ym mis Mawrth 2021, diwygiodd y Cyngor ei CATC i gwmpasu'r cyfnod rhwng 2021-22 a 2024-25.
- mae'r CATC yn nodi tri senario gwahanol mewn perthynas â'r bwlch o ran cyllid hyd at 2024-25. Mae'r senario mwyaf gochelgar yn seiliedig ar gynnydd o 2% yn y setliad refeniw gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23, 2023-24 a 2024-25. Mae'r senario hwn yn gadael y Cyngor â chyfanswm bwlch ar y cyfan o ran cyllid o £13.740 miliwn ar gyfer y cyfnod hyd at 2024-25. Fodd bynnag, nid oes gwarant y bydd cynnydd o 2% yn y setliad yn cael ei roi ar gyfer pob un o'r tair blynedd ariannol hyn, felly mewn gwirionedd gallai'r bwlch o ran cyllid fod hyd yn oed yn fwy. Bydd angen i'r Cyngor sicrhau bod ganddo gynlluniau wrth gefn pe bai setliadau yn y dyfodol yn llai cadarnhaol a dylai ymgorffori senarios sy'n ymwneud â setliadau arian gwastad neu negyddol mewn Cynlluniau Ariannol Tymor Canolig yn y dyfodol.
- ar gyfer 2021-22, mae'r Cyngor wedi nodi arbedion effeithlonrwydd gan wasanaethau o £935,000 ac mae'r Cyngor wedi tynnu'r swm yma allan o'i ofynion o ran y gyllideb sylfaenol ar gyfer 2021-22.
- hyd yma, mae ffocws y Cyngor wedi bod ar gyllidebau blynyddol yn hytrach nag arbedion trawsnewidiol neu arbedion effeithlonrwydd hirdymor wedi'u cynllunio. Mae'r Cyngor yn y broses o adnabod yr arbedion y mae'n bwriadu eu cyflawni trwy ei Gynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella, yn ogystal ag unrhyw fuddsoddiadau sy'n ofynnol i'w gyflawni. Cafodd adroddiad ar gyllido'r Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor llawn ar 14 Gorffennaf 2021. Mae'r adroddiad hwnnw'n nodi y bydd y buddsoddiad o £802,000 sy'n ofynnol ar gyfer 2021-22 yn cael ei gyllido o'r alldro refeniw o 2020-21. Y bwriad yw y bydd blynyddoedd dilynol yn cael eu

cyllido o ofynion ychwanegol sydd wedi'u cynnwys yn y CATC, ond nid oes gwarant y bydd yr arian hwnnw ar gael.

- cafodd y Cyngor gynnydd o 4.8% yn ei grant cynnal refeniw ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 a chynnydd o 4.6% ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22. Oherwydd y setliadau gweddol ffafriol hyn, mae sefyllfa ariannol fyrdymor y Cyngor wedi gwella, ac yn awr mae angen iddo ddefnyddio'r cyfle hwn i gynllunio ar gyfer y tymor canolig a hir.
- mae'r Cyngor wedi cydnabod bod ganddo faterion o ran capasiti yr oedd angen rhoi sylw iddynt ar frys ac mae wedi cymryd camau i fynd i'r afael â rhai ohonynt, gyda £705,000 wedi'i gynnwys yng nghyllideb refeniw 2021-22. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd angen buddsoddiad pellach mewn blynyddoedd yn y dyfodol y bydd angen eu cynnwys fel ystyriaeth yn y CATC.

**Arddangosyn 3: mae gan y Cyngor gyfanswm bwlch cronnus o ran cyllid a ragamcanir ar gyfer y tair blynedd rhwng 2021-22 a 2023-24 o £10.052 miliwn**

Mae'r graff hwn yn dangos y bwlch o ran cyllid y mae'r Cyngor wedi'i nodi ar gyfer y tair blynedd ganlynol.




Sylwer: Mae'r bwlch o ran cyllid a ragamcanir yn seiliedig ar dybiaeth y bydd cynnydd o 2% yn y setliad gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 a 2023-24. Y £0.935 miliwn yw'r arbedion effeithlonrwydd gan wasanaethau a fydd yn cael eu gwneud ar gyfer 2021-22.

Ffynhonnell: Adroddiad i'r Cabinet, 3 Mawrth 2021, Cyllideb 2021-22, Treth Gyngor 2021-22 a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2021-22 i 2024-25

## Mae cronfa gyffredinol y Cyngor wedi cynyddu a’r bwriad yw ei chynnal yn unol â’i bolisi cronfeydd wrth gefn; fodd bynnag, roedd tuedd gyffredinol o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd yn lleihau, ond maent wedi cynyddu’n sylweddol yn 2020-21

### Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

10 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy’n rhwyd ddiogelwch bwysig i gefnogi cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell cyllid bwysig hefyd i gefnogi mentrau ‘buddsoddi i arbed’ sydd wedi’u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau. Mae cynghorau sy’n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllideb refeniw, sy’n arwain at ostyngiadau ym malansau’r cronfeydd wrth gefn, yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

11 Canfuom fel a ganlyn:

- dirywiodd lefelau cyffredinol cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy’r Cyngor o £22.2 miliwn yn 2016-17 i £15.9 miliwn yn 2019-20, ond mae’r alldro dros dro ar gyfer 2020-21 yn nodi cynnydd sylweddol i £25.7 miliwn. Cafodd y Cyngor gyllid ychwanegol sylweddol gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2020-21.
- yn 2020-21, fe ychwanegodd y Cyngor £635,000 at ei gronfa gyffredinol felly mae hon bellach yn gyfanswm o £5.335 miliwn, sy’n unol â’i Bolisi Cronfeydd wrth Gefn Corfforaethol. Ar hyn o bryd nid oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau i ddefnyddio unrhyw gronfeydd cyffredinol yn y ddwy flynedd ariannol nesaf.
- mae’r Cyngor yn bwriadu defnyddio £6.508 miliwn o’i gronfeydd wrth gefn wedi’u clustnodi yn y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2023 at ddibenion penodol, wedi’u cynllunio, sef ariannu’r Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella, trawsnewid digidol, adfer o COVID, a’r rhaglen brentisiaethau.
- mae balansau’r cronfeydd wrth gefn ysgolion wedi cynyddu i £4.267 miliwn o ran eu sefyllfa ar 31 Mawrth 2021.

**Arddangosyn 4: swm y cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol**

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor yn ystod 2020-21 a'r pedair blynedd flaenorol fel cyfran o gost net y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21[2] |
|---|---|---|---|---|---|
| Cost Net Gwasanaethau mewn £ miliynau [3] | 108.6 | 111.0 | 118.7 | 118.4 | 113.8 |
| Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy mewn £ miliynau [4] | 22.2 | 21.9 | 16.7 | 15.9 | 25.7 |
| Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o gost net gwasanaethau [5] | 20.4 | 19.8 | 14.1 | 13.4 | 22.6 |
| Safle o'i gymharu â chynghorau eraill Cymru | 9/22 | 9/22 | 13/22 | 13/22 | [2020-21 ddim ar gael eto] |

Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon


[2] Ffigyrau anarchwiliedig.

[3] Y gwerth a ddefnyddiwyd yw cost net gwasanaethau a godwyd ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Ariannu Gwariant, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

[4] Wrth y term cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy rydym yn golygu cyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

[5] Cyfrifiad Archwilio Cymru.

**Arddangosyn 5: cyfanswm cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel canran o gost net gwasanaethau**




| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Uchaf yn y Flwyddyn | 33.4% | 34.5% | 33.6% | 33.6% | 33.4% |
| Merthyr Tudful | 16.5% | 17.9% | 17.4% | 12.2% | 12.1% |
| Isaf yn y Flwyddyn | 9.8% | 8.8% | 7.2% | 6.1% | 4.2% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

## Mae'r Cyngor wedi gwella'i hanes cymysg blaenorol o berfformio yn erbyn y gyllideb, gyda gwargedau wedi'u cyflawni yn y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf

### Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir

12 Mae'n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau a gynlluniwyd. Mae cyngor sy'n methu â rhagweld a chynllunio gwariant yn gywir yn achosi risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a all beryglu'r gallu i bennu cyllideb fantoledig. Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

### Yr hyn a ganfuom

13 Canfu ein hadroddiad ar Gynaliadwyedd Ariannol yn 2019-20 fod perfformiad y Cyngor yn erbyn y gyllideb wedi amrywio dros y blynyddoedd diwethaf, a'i fod wedi defnyddio swm sylweddol o gronfeydd wrth gefn i gyllido'r diffyg. Roedd y defnydd o gronfeydd wrth gefn wedi'i gynllunio gan mwyaf.

14 Yn ddiweddar, mae perfformiad y Cyngor yn erbyn y gyllideb wedi gwella'n sylweddol. Yn 2019-20, roedd tanwariant o £2.9 miliwn. Cafodd y cyfraniadau wedi'u cyllidebu o £483,000 o'r cronfeydd cyffredinol ac £1.295 miliwn o gronfa wrth gefn y gyllideb eu cadw o fewn balansau'r cronfeydd wrth gefn, ac fe drosglwyddwyd £1.113 miliwn i gronfa wrth gefn y gyllideb.

15 Ar gyfer 2020-21, mae gan y Cyngor warged dros dro o £4.464 miliwn, sy'n cynnwys tuag £1.4 miliwn o'r cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a gafwyd ym mis Mawrth 2021.

16 Mae perfformiad gwell y Cyngor yn erbyn y gyllideb yn ddiweddar wedi cael ei gynorthwyo gan y setliadau ffafriol gan Lywodraeth Cymru yn 2019-20 a 2020-21, ailddosbarthu cronfeydd wrth gefn y Cydbwyllgorau a newid yn y Polisi Isafswm Refeniw yn 2019-20, a'r cyllid sylweddol sy'n gysylltiedig â COVID-19 a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2020-21.

17 Cododd ein llythyr ym mis Mai 2019 bryderon ynghylch y gorwariant o £1.3 miliwn mewn perthynas â'i gyllideb gofal cymdeithasol yn 2018-19 a'r galw digynsail mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal. Yn 2019-20, roedd gan y gyllideb plant sy'n derbyn gofal ddiffyg yn y gyllideb net o £669,000, er bod gan y gyllideb gwasanaethau cymdeithasol ar y cyfan warged o £376,000. Fel y mae pethau, er bod gan gyllideb plant sy'n derbyn gofal y Cyngor orwariant dros dro o £669,000, mae'r Cyngor yn ystyried bod y gyllideb gofal cymdeithasol ar y cyfan dan reolaeth gyda thanwariant ar y cyfan dros dro o £2.24 miliwn ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, oherwydd costau is na'r disgwyl ar gyfer darparu gofal allanol annibynnol. Mae'r Cyngor wedi cymryd rhai camau i leddfu'r gorwariant o fewn ei gyllideb plant sy'n derbyn gofal ac mae'n canlyn arni ag agweddau ar y Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella sydd wedi'u bwriadu i leihau niferoedd y plant sy'n derbyn gofal a hynny mewn modd diogel ac i wella deilliannau i blant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn ymwybodol iawn bod sefyllfa'r gyllideb yn dal i fod yn gryn her, ac mae'n cynllunio ar gyfer pwysau ychwanegol yn y gwasanaeth dros y flwyddyn nesaf. Mae cyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2021-22 yn cynnwys £591,000 ar gyfer pwysau ychwanegol o ran y galw am wasanaethau lleoliadau preswyl ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

**Arddangosyn 6: swm y gorwariant/tanwariant yn berthynol i gyfanswm y gyllideb refeniw net**

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos swm y gorwariant neu'r tanwariant yng nghyllideb refeniw net y Cyngor ar y cyfan am y pum mlynedd ddiwethaf.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21[6] |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net Wreiddiol £ miliynau | 114.2 | 114.8 | 117.5 | 120.3 | 127.5 |
| Alldro Refeniw Net Gwirioneddol | 112.6 | 113.5 | 118.1 | 119.2 | 123.1 |
| Swm y gwarged/gorwariant ar y cyfan | 1.6 | 1.3 | -0.6 | 1.1 | 4.4 |

[6] Ffigyrau anarchwiliedig.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21[6] |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r gyllideb refeniw net | 1.4 | 1.1 | -0.5 | 0.9 | 3.5 |

Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

## Mae gan y Cyngor hanes da o gyrraedd targedau arbedion, ond nid yw'r arbedion hynny'n ddigon i lenwi bylchau o ran cyllid yn y dyfodol

### Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

18 Mae'r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny'n ddiweddarach, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle na chaiff cynlluniau arbedion eu cyflawni gall hyn arwain at orwariannau sy'n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan hefyd gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen mewn blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a bod angen i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu'r risg naill ai na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau'r Cyngor, neu o ddatrysiadau 'byrdymor' nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

### Yr hyn a ganfuom

19 Canfu ein hadroddiad ar Gynaliadwyedd Ariannol yn 2019-20, er bod ganddo hanes da o gyflawni arbedion, fod maint diffygion ariannol y Cyngor yn ei gwneud yn anodd mantoli'r cyfrifon mewn modd cynaliadwy.

20 Mae **Arddangosyn 6** isod yn nodi'r ganran o arbedion wedi'u cynllunio a gyflawnwyd ar gyfer pob blwyddyn ariannol ers 2016-17.

21 Er gwaethaf yr hanes cadarnhaol, a'r arbedion a gyflawnwyd hyd yma, mae'r Cyngor yn dal i fod â bwlch mawr o ran cyllid wrth edrych tua'r dyfodol. Mae'r Cyngor wedi adnabod £935,000 o arbedion effeithlonrwydd gan wasanaethau y mae'n amcanu at eu cyflawni yn 2021-22, ond y tu hwnt i hynny, nid yw graddfa'r arbedion pellach y bydd angen eu cyflawni dros gyfnod y CATC wedi cael ei hadnabod eto.

**Arddangosyn 7: arbedion a gyflawnwyd fel canran o'r arbedion wedi'u cynllunio**

Mae'r arddangosyn canlynol yn nodi faint o arian yr oedd y Cyngor yn bwriadu ei arbed o'i gynlluniau arbedion rhwng 2016-17 a 2019-20 a faint o hyn y gwnaeth ei arbed mewn gwirionedd yn ogystal ag amcangyfrifon ar gyfer 2020-21.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | Amcangyfrif 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm arbedion wedi'u cynllunio mewn £ miliynau | 2.646 | 2.898 | 2.786 | 2.528 | 2.059 |
| Arbedion wedi'u cynllunio a gyflawnwyd mewn £ miliynau | 2.580 | 2.574 | 2.687 | 2.372 | 1.975 |
| Arbedion wedi'u cynllunio nas cyflawnwyd mewn £ miliynau | 0.066 | 0.324 | 0.099 | 0.156 | 0.084 |
| Canran yr arbedion a gyflawnwyd | 97.5 | 88.8 | 96.4 | 93.8 | 95.9 |

Ffynonellau: amryw adroddiadau ar Raglen Newid CBSMT

## Mae gan y Cyngor sefyllfa hylifedd weddol wan o'i gymharu â chynghorau eraill, ond nid yw'r Cyngor yn ystyried bod hyn yn risg arwyddocaol

### Pam fod sefyllfa hylifedd y Cyngor yn bwysig

22 Pam ei bod yn bwysig pwyso a mesur asedau cyfredol o'i gymharu â rhwymedigaethau cyfredol (hylifedd):

- mae'n arwydd o'r modd y mae cyngor yn rheoli ei gyllid yn y tymor byr.
- er ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin i archwilio pa un a yw sefydliadau'n gallu talu eu dyledion yn y tymor byr, mae hyn yn annhebygol o fod yn risg i gynghorau o ystyried eu gallu i gymryd benthyciadau byrdymor. Fodd bynnag, mae hefyd yn gweithredu fel dangosydd sy'n dynodi sut y mae cyngor yn rheoli ei gyllid yn y tymor byr.
- dylai cynghorau â chymarebau hylifedd isel sicrhau bod ganddynt drefniadau i gwrdd â'u rhwymedigaethau.
- gall fod costau ychwanegol i gynghorau sy'n dibynnu ar fenthyciadau byrdymor i dalu dyledion.
- dylai cynghorau â chymarebau hylifedd uchel iawn ystyried a ydynt yn rheoli eu hasedau cyfredol yn y ffordd fwyaf effeithiol.

23 Canfuom fel a ganlyn:

- ar ddiwedd 2019-20, roedd gan y Cyngor gymhareb hylifedd o 0.6 sydd wedi dirywio o 0.8 yn 2015-16.
- ar gyfer y cyfnod rhwng 2015-16 a 2019-20, roedd cymhareb hylifedd y Cyngor yn un o'r isaf o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill ledled Cymru.
- mae'r gymhareb hylifedd ragamcanol ar gyfer 2020-21 wedi cynyddu i 0.9.
- nid yw'r Cyngor yn ystyried bod ei gymhareb hylifedd yn risg arwyddocaol, am ei fod yn cael benthyg arian yn y tymor byr i gyllido gwariant cyfalaf yn hytrach na thros y tymor hir. Dyma fu strategaeth y Cyngor am nifer o flynyddoedd er mwyn manteisio ar gyfraddau llog is ac fe ymgymerwyd â hi yn dilyn trafodaethau gydag ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor. Caiff y strategaeth hon ei hadolygu'n aml (o leiaf unwaith y flwyddyn) a phan fydd yr amser yn iawn bydd y Cyngor yn disodli'r benthyciadau byrdymor â benthyciadau tymor hwy.

**Arddangosyn 8: cymhareb cyfalaf gweithio rhwng 2015-16 a 2020-21**

| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21[7] |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Asedau Cyfredol [8] | 27.3 | 25.2 | 34.7 | 35 | 41.6 | 70.7 |
| Rhwymedigaethau Cyfredol [9] | 33.3 | 35.8 | 52.2 | 61.2 | 74.0 | 83.1 |
| Cymhareb Cyfalaf Gweithio | 0.8 | 0.7 | 0.7 | 0.6 | 0.6 | 0.9 |

Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

[7] Ffigyrau anarchwiliedig.

[8] Mae Asedau Cyfredol yn cynnwys: Buddsoddiadau Byrdymor; Asedau a ddelir i'w gwerthu; Rhestrau Eiddo; Dyledwyr Byrdymor; ac Arian Parod a'i gyfwerth. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

[9] Mae Rhwymedigaethau Cyfredol yn cynnwys: Benthyciadau Byrdymor; Credydwyr Byrdymor; a Darpariaethau sy'n ddyledus ymhen un flwyddyn. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.